

Y Llyfr gan Judith Williams

Dim wyrion bore ma, felly penderfynodd Valerie dreulio amser yn didoli trwy lyfrau i'w rhoi i Oxfam.

Tynnodd un llyfr yn arbennig ei sylw - 'Under the Net' gan Iris Murdoch. Argraffiad cyntaf Penguin oedd e, mewn cyflwr rhagorol, felly efallai y gallai Oxfam gael pris da amdano. Roedd y clawr blaen yn dangos dyn mawr yn canu'r corn dwbl, ac roedd y clawr cefn yn nodi bod ein harwr yn awdur bychan a dreuliodd amser yn cael anturiaethau comig yn Llundain. Nid oedd Valerie erioed wedi darllen y llyfr, ac nid oedd byth eisiau, ond roedd hi bob amser yn gwenu wrth ddarllen yr arysgrif a ysgrifennodd ei hen gariad:

'A wnawn ni ddechrau ein pennod nesaf? Nid yw ein stori wedi dod i ben.'

Ond roedd hi wedi gwneud ei phenderfyniad, ac nid oedd yn mynd i newid ei meddwl. Roedd eu stori yn bendant ar ben. Ac yna, ychydig o flynyddoedd yn ôl, clywodd ei fod wedi marw, ar ôl bywyd o deithio ac ysgrifennu. Roedd yn ymddangos ei fod wedi cael bywyd da, ac roedd y meddwl hwnnw'n ei phlesio.

Y prynhawn hwnnw, rhoddodd Valerie y pentwr bach o lyfrau i Tom, gwirfoddolwr siaradus y tu ôl i'r til yn Oxfam. Gofynnodd iddi, fel y gwnaeth yn aml, a allai hi argymhell unrhyw beth, a phwyntiodd e at glawr trawiadol 'Under the Net.'

"O, allwn i ddim dweud wrthyh chi", atebodd hi, "gan nad wyf erioed wedi darllen yr un hwnnw - dylwn fod wedi cael gwared arno flynyddoedd yn ôl."

Roedd Tom yn edrych yn chwilfrydig, efallai yn sylweddoli bod y llyfr yn fwy na gwaith ffuglen, gyda stori ei hun, ond ni ddywedodd mwy.

Yr wythnos ganlynol dychwelodd Valerie i'r siop er mwyn pori trwy'r llyfrau, a chlywodd lais Tom.

"Mae gen i rywbeth i chi" meddai, ac estynnodd y tu ôl i'r til am barsel bach wedi'i lapio mewn papur brown. Ychydig yn chwithig, cyrhaeddodd am ei phwrs.

"Na, anrheg yw e. Edrychwch pan gyrhaeddwch adref, a dywedwch wrtha i beth yw eich barn".

Cerddodd hi adref yn gyflymach nag arfer, a swatiodd hi mewn cadair freichiau ar unwaith i ddadlapio ei hanrheg. Adnabu'r clawr yn syth bin, gyda'r cerddor corffog yn chwythu ei gorn dwbl. Tu mewn y llyfr roedd arysgrif arall o dan yr un cyntaf:

'A wnawn ni ddechrau ein pennod gyntaf? Nid yw ein stori wedi dechrau.'